



CGL Cyflawni Newid trwy Gyflogaeth (ACE)

Astudiaeth achos 1

Daeth F o Fangladesh gyda'i gŵr. Mae wedi ymgartrefu yng Nghymru ac roedd hi'n magu tri o blant, ond yn y DU roedd wedi bod yn anweithgar yn economaidd ers y cychwyn fel gwraig tŷ ac nid oedd ganddi'r hyder i chwilio am waith.

Nododd F y byddai'n hoffi gweithio gyda phlant, oherwydd gan ei bod yn fam roedd hwn yn faes lle roedd yn teimlo bod ganddi brofiad a set sgiliau cryf.

Datblygodd ein Swyddogion Achos CV gydag F ac anfonodd hi'r CV i ysgolion lleol er mwyn gweld a allai gael lleoliad gwirfoddoli fel Cynorthwydd Addysgu fel y gallai ddechrau ennill rhywfaint o brofiad.



Derbyniodd wahoddiad i ddod i gwrdd ag un o'r ysgolion y diwrnod ar ôl iddynt dderbyn ei CV ac mae nawr yn cwblhau ei lleoliad gwirfoddoli.

Am ragor o wybodaeth ynghylch achos F ac i weld mwy o'n gwaith ewch i <https://vimeo.com/214691115>. Mae copi o'r ffeil fideo ar gael gennym yn CGL ACE os hoffech ein helpu i roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith.

Astudiaeth achos 2

Mae R yn dod o Fangladesh. Cwblhaodd ein Swyddog Achos waith papur asesu CGL ACE gyda hi a daethpwyd i'r casgliad y dylai R ganolbwyntio ar Sgiliau a Hyfforddi.

Edrychodd Swyddog Achos R ar gwrs Sgiliau Swyddfa o Restrâu Darparwyr wedi'u Cymeradwyo CGL ACE a fyddai'n rhoi'r sgiliau y byddai eu hangen arni mewn swydd weinyddol ac awgrymodd y cyfle i R. Cwblhaodd R ei chwrs yn llwyddiannus.

Cefnogwyd R i wneud cais am nifer o swyddi a llwyddodd i sicrhau lleoliad gwaith â thâl am chwe mis gyda'r DVLA a fydd yn dechrau yn y chwarter nesaf. Cafodd gymorth gan ei Swyddog Achos i gwblhau ffurflen ar gyfer gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn ogystal, mae hi hefyd wedi trefnu'n annibynnol i ddechrau cwrs TG ychwanegol a gynhelir gan ei choleg lleol nawr ei bod yn teimlo ei bod yn deall yn well pa sgiliau sy'n debygol o fod eu hangen arni mewn lleoliad gwaith.

Tynnwyd y lluniau canlynol mewn digwyddiad yn JCP Abertawe ym mis Ebrill 2017

